LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Eitem:** 04

**Teitl:** Adroddiad y Prif Weithredwr

## Cyflwyniad

Ers ein cyfarfod bwrdd cyhoeddus diwethaf, rwyf wedi parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i siarad am ein rôl, llywio ein cynlluniau, ffyrdd o weithio, cyflawni ein hymrwymiadau, mynd i'r afael â materion allweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a nodi sut y gallwn gydweithio i gryfhau llais pobl mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae manylion yr holl weithgareddau hyn ar gael ar gais.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ychydig o'r datblygiadau a'r gweithgareddau rydw i wedi bod yn rhan ohonynt ers cyfarfod cyhoeddus llawn ddiwethaf y bwrdd ar 25 Mawrth 2026. Nid yw'r gweithgareddau a'r datblygiadau allweddol hyn wedi cael eu trafod yn fanylach mewn papurau eraill y Bwrdd.

| Cryfhau lleisiau pobl |
|---|
| **Cefnogi llais cyhoeddus cryfach mewn Cymuned drwy Ddylunio**<br><br>Rydym wedi bod yn gweithio gyda Perfformiad a Gwella GIG Cymru ar ystod o ddatblygiadau a gweithgareddau a gynlluniwyd i sbarduno gwelliant yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu. Un o'r rhain yw'r rhaglen Cymuned drwy Ddylunio. Nod y rhaglen hon yw cefnogi mwy o ofal sy'n cael ei gynllunio a'i ddarparu'n agosach at adref.<br><br>Mae'r dull yn dechrau o safbwynt y person sy'n defnyddio gwasanaethau ac yn gweithio ar y dybiaeth y dylid darparu gofal yn y gymuned lle bynnag y bo'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny.<br><br>Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar helpu gwasanaethau i feddwl yn wahanol am lwybrau gofal cyfan fel bod cymorth yn gydgysylltiedig, yn haws i'w gyrchu ac yn gweddu'n well i anghenion pobl. Mae'n edrych ar sut y gall partneriaid wneud gwell defnydd o ddiagnosteg, cyngor a gwneud penderfyniadau ar y cyd, rheoli risg, cefnogaeth meddyginiaethau, monitro a sgiliau'r tîm aml-broffesiynol ehangach yn y gymuned. Mae gwaith cyfredol yn cynnwys llwybrau sy'n gysylltiedig â diffyg anadl, diabetes ac iechyd meddwl cymunedol.<br><br>Mae hyn yn bwysig o safbwynt Llais oherwydd ei fod yn adlewyrchu ffordd o gynllunio gwasanaethau sy'n berson-ganolog ac yn creu cyfle i gynnwys profiad, hyder a blaenoriaethau pobl wrth ailgynllunio gwasanaethau o'r cychwyn cyntaf.<br><br>Os yw Cymuned drwy Ddylunio am gyflawni newid parhaol, bydd angen iddo gael ei lunio gan yr hyn y mae pobl leol a chymunedau yn ei ddweud sy'n bwysig iddynt, yn enwedig lle mae newidiadau'n effeithio ar fynediad, |

parhad gofal a gallu pobl i gael y gefnogaeth gywir ar yr amser cywir ac yn y lle cywir. Mae cyfle clir i alinio'r gwaith hwn ag Egwyddorion y Bobl, yn enwedig o ran mynediad sy'n gweithio i bawb, urddas a pharch, cyfathrebu clir a gonest, gofal cydgysylltiedig a gwasanaethau sy'n ymateb i'r person cyfan.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Perfformiad a Gwella GIG Cymru i gefnogi llais cyhoeddus cryf yn y ffordd y caiff Cymuned drwy Ddylunio ei datblygu a'i chymhwyso ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pobl a chymunedau yn cael eu gwrando'n ystyrlon wrth i wasanaethau newid, a bod yr hyn a glywn drwy ein hymgysylltiad ehangach yn helpu i lunio gofal sy'n fwy cydgysylltiedig, yn fwy hygyrch ac yn fwy ymatebol i'r hyn sydd bwysicaf i bobl.

**Dod â safbwynt y claf i raglen drawsnewid Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)**

Rydym yn parhau i weithio gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i lywio a dylanwadu ar sut y dylai ei waith effeithio ar brofiad pobl o ofal a'u hyder mewn gwasanaethau gofal iechyd.

Fe wnaethon ni gyfarfod â'r Prif Weithredwr a'i gydweithwyr y mis diwethaf i ganolbwyntio ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â chleifion, gan gynnwys:

- ei ymgynghoriad ar wella dysgu ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth, gan gynnwys ansawdd lleoliadau, mwy o ddysgu cymunedol i fyfyrwyr nyrsio ac addysg bydwreigiaeth gryfach.
- newidiadau arfaethedig i reolau addasrwydd i ymarfer sy'n anelu at ymateb i bryderon yn gyflymach ac yn decach wrth barhau i amddiffyn y cyhoedd.
- gwaith y Cyngor ar wrth-hilioldeb, cynhwysiant ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol mewn addysg ac ymarfer, gan gynnwys egwyddorion i helpu prifysgolion a phartneriaid ymarfer i ymateb yn well i anghydraddoldeb hiliol ac argyfwng iechyd mamau Duon. Mae hyn yn cynnwys ei hymrwymiad i wrando ar deuluoedd mewn galar sydd wedi'u heffeithio gan fethiannau mewn gwasanaethau mamolaeth ac i ddysgu o'r hyn y mae teuluoedd wedi'i rannu am ddiogelwch, atebolrwydd a gofal.

Fe wnaethon ni atgyfnerthu pwysigrwydd llunio'r newidiadau hyn o amgylch profiad bywyd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, yn enwedig lle mae diogelwch, urddas, tegwch ac ymddiriedaeth yn y fantol. Roedd gennym farn gyffredin y dylai newidiadau i reoleiddio ac addysg helpu i adeiladu gofal mwy diogel, safonau proffesiynol cryfach a mwy o hyder i'r bobl a'r teuluoedd sy'n dibynnu ar wasanaethau.

Mae ein gwaith gyda'n gilydd wedi llywio datblygiad canllawiau mamolaeth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, gan helpu i sicrhau bod profiadau menywod a barn teuluoedd yn cael eu clywed a'u hadlewyrchu'n well.

Mae ein gwaith parhaus yn canolbwyntio ar sut mae rhaglen drawsnewid ehangach y Cyngor yn cyd-fynd ag Egwyddorion y Bobl, yn enwedig lle maent yn sôn am urddas, gwrando, cyfathrebu clir, tegwch a gofal cydgysylltiedig. Mae hwn yn gyfle pwysig i ymgorffori'r Egwyddorion o fewn y fframwaith rheoleiddio ar gyfer nyrsys a bydwragedd er mwyn cefnogi gofal mwy diogel, tecach ac ymatebol.

**Gweithio gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol i gefnogi datblygiadau o safbwynt y claf**

Rydym hefyd wedi gweithio’n ddiweddar gyda’r Cyngor Meddygol Cyffredinol i helpu i gryfhau ei gyfathrebu â chleifion, yn enwedig mewn perthynas â sut mae’n ysgrifennu at bobl pan godir pryderon ond nad ydynt yn cael eu hystyried.

Canolbwyntiodd ein cyfraniad ar bwysigrwydd iaith glir, tosturi, hygyrchedd, tryloywder a mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar drawma, fel bod pobl yn teimlo'n fwy gwybodus, yn cael eu trin â pharch ac yn gliriach ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd nesaf.

Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn y mae pobl yn ei ddweud yn gyson wrth Llais sydd bwysicaf pan fyddant yn ceisio llywio prosesau anodd neu godi pryderon am ofal.

Yn ei gyfarfod Fforwm Ymgynghorol y DU diweddaraf yng Nghaerdydd, gofynnwyd i Llais fframio meddyliau a thrafodaethau'r mynychwyr ar addysg a hyfforddiant i feddygon drwy siarad am Egwyddorion y Bobl. Roedd y Cyngor eisoes wedi gwneud rhywfaint o waith i brofi pa mor dda yr oedd eu safonau a'u gofynion yn cyd-fynd ag Egwyddorion y Bobl. Tynnwyd sylw at werth defnyddio'r Egwyddorion i gryfhau trafodaeth ynghylch cyfathrebu, urddas, tegwch, gwrando a gofal person-ganolog.

Ers hynny mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi dilyn i fyny i barhau i symud y gwaith hwn ymlaen, sy'n arwydd cadarnhaol o ymrwymiad parhaus a chyfle i feithrin dylanwad pellach ar Egwyddorion y Bobl yn y maes hwn.

**Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

Yn ddiweddar, rydym wedi cytuno i weithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i archwilio sut y gall Egwyddorion y Bobl helpu i lywio datblygiad ei methodoleg arolygu newydd ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Mae hwn yn gyfle cadarnhaol i gryfhau'r ffordd y mae profiad a disgwyliadau pobl yn cael eu hadlewyrchu yn y ffordd y mae ansawdd a diogelwch gofal iechyd yn cael ei asesu.

Mae cyfle clir i'r gwaith hwn helpu i sicrhau bod dulliau arolygu yn rhoi pwyslais priodol ar yr hyn sydd bwysicaf i bobl, gan gynnwys urddas a pharch, cyfathrebu clir, mynediad, gofal cydgysylltiedig a chael gwrandawiad. Gall y gwaith hwn fod yn gam pwysig wrth adeiladu cysylltiad cryfach rhwng yr hyn a glywn gan bobl a chymunedau a sut mae sicrwydd a gwelliant yn cael eu datblygu ar draws gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

**Gofal iechyd trawsffiniol: yr heriau sy'n effeithio ar brofiad pobl o ofal iechyd**

Ers fy adroddiad diwethaf, mae Llais wedi cyfrannu rhagor o dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig i drefniadau gofal iechyd trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys rhoi tystiolaeth i'r ymchwiliad yn sesiwn y pwyllgor ar 22 Ebrill 2026. Roedd ein tystiolaeth yn tynnu ar yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym yn uniongyrchol drwy ymgysylltu, eiriolaeth cwynion a gwaith ehangach gyda phartneriaid cymunedol sy'n gweithio gyda phobl sy'n dibynnu ar wasanaethau ar draws y ffin.

Amlygodd ein tystiolaeth fod gofal iechyd trawsffiniol yn rhan arferol o ofal y GIG i lawer o bobl yng Nghymru, yn enwedig mewn cymunedau ar y ffin ac i'r rhai sydd angen triniaeth arbenigol yn Lloegr. Er bod y trefniadau hyn yn bodoli ers tro byd, mae profiadau pobl yn aml yn fwy dryslyd a llawn straen nag y dylent fod. Mae pobl yn dweud wrthym nad ydyn nhw bob amser yn glir pa reolau sy'n berthnasol iddyn nhw, beth mae ganddyn nhw hawl iddo, pwy sy'n gyfrifol am benderfyniadau am eu gofal, neu ble i fynd pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.

Fe wnaethon ni dynnu sylw at yr effaith ymarferol y gall hyn ei chael ar fywydau pobl. Mae hyn yn cynnwys anawsterau wrth lywio gwahanol systemau, oedi sy'n gysylltiedig â chyllid a gweinyddiaeth (ac yn benodol effaith y penderfyniad a wnaed gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys i arafu triniaeth i bobl ar restrau aros yn Lloegr), rhannu digidol a data cyfyngedig rhwng gwasanaethau, pellteroedd teithio hir, a chefnogaeth anghyson ar gyfer anghenion yr iaith Gymraeg. Gall y problemau hyn wneud i bobl deimlo'n ansicr, wedi'u hanwybyddu ac yn llai abl i ddylanwadu ar benderfyniadau am eu gofal.

Mae'r dystiolaeth hefyd yn adlewyrchu perthnasedd Egwyddorion y Bobl, yn enwedig o ran mynediad, cyfathrebu clir, gofal cydgysylltiedig, tegwch a chael eich trin ag urddas a pharch. Ers y sesiwn tystiolaeth lafar, rydym hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ddilynol i'r Pwyllgor ynghylch effaith gweithredu amseroedd aros gwahanol mewn ysbytai yn Lloegr yn dibynnu ar ble mae rhywun yn byw.

**Cryfhau lleisiau pobl mewn gofal cymdeithasol**

Rydym wedi parhau i weithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth i helpu i gryfhau lle lleisiau pobl mewn polisi gofal cymdeithasol, datblygu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau.

Mae hyn yn adlewyrchu ein diddordeb cyffredin mewn sicrhau bod newid gofal cymdeithasol yn cael ei lunio'n gliriach gan yr hyn y mae pobl, teuluoedd a gofalwyr yn ei ddweud sy'n bwysig iddyn nhw, ac nid yn unig gan bwysau sefydliadol neu system.

Gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae trafodaethau wedi parhau ynghylch dylunio cytundeb cydweithredu i gefnogi'r ffordd y mae cynigion newid gwasanaethau yn cael eu trin ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae hyn yn cynnwys pwysigrwydd rhannu gwybodaeth yn gynnar, dull cyson o ymgysylltu, a threfniadau cliriach ar gyfer sut y gall Llais ymateb i newidiadau arfaethedig sy'n effeithio ar fynediad pobl at ofal a chymorth, a'u profiad ohonynt.

Gyda'r Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n fwy gweladwy, yn fwy ymatebol ac yn fwy cysylltiedig â sut mae gwelliannau gofal cymdeithasol yn cael eu cynllunio a'u cyflawni.

Mae'r gwaith partneriaeth parhaus hwn wedi rhoi cyfle defnyddiol i fyfyrio ar gynnydd yn erbyn cynllun y Swyddfa Genedlaethol a sut mae ei chamau gweithredu'n cael eu cyflawni'n ymarferol. Mae hefyd wedi atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau nad yw ymgysylltu'n cael ei drin fel gweithgaredd ar wahân, ond fel rhan graidd o sut mae penderfyniadau'n cael eu llunio a'u profi fel bod profiad pobl yn llywio datblygiad Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru.

**Dylanwadu ar flaenoriaethau Llywodraeth newydd Cymru**

Mae gan Gymru Lywodraeth newydd bellach, a fydd yn datblygu ei Rhaglen Lywodraeth. Mae hyn yn creu cyfle pwysig i Llais barhau i gyflwyno'r hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym sydd bwysicaf ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac i wneud yn siŵr bod lleisiau pobl yn cael eu clywed yn glir wrth i flaenoriaethau newydd gael eu llunio.

Byddwn yn gweithio i lywio a dylanwadu ar flaenoriaethau'r Llywodraeth newydd drwy adeiladu ar y cydlyniad cryf rhwng Blaenoriaethau'r Bobl (galwadau maniffesto Llais) ac Egwyddorion y Bobl a'r ymrwymiadau a wnaed yn ystod y cyfnod etholiad, fel y crynhoir isod:

Y cydlyniad cliriaf a mwyaf uniongyrchol rhwng galwadau maniffesto Llais ac ymrwymiadau etholiadol a wnaed gan y llywodraeth newydd yw mewn perthynas â sgyrsiau 'Beth sy'n bwysig i chi', cyfathrebu canlyniadau profion yn rhagweithiol o fewn pythefnos, cryfhau gofal sylfaenol, gwella integreiddio a pharhad gofal, cefnogaeth i ofalwyr di-dâl, darpariaeth iaith Gymraeg, a mwy o bwyslais ar atal, tegwch a lleihau anghydraddoldebau.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio blaenoriaethau ac egwyddorion y bobl a'r hyn a glywsom gan bobl a chymunedau ledled Cymru i fframio ein hymgysylltiad â'r weinyddiaeth newydd, gan helpu i gadw trafodaethau'n canolbwyntio ar yr hyn a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i brofiad beunyddiol pobl o ofal a chymorth.

## Datblygu ein hunain i gyflawni ar gyfer pobl

**Gwella ein systemau Gweithlu digidol**

Rydym yn un o'r rhai a fabwysiadodd y system Cofnod Staff Electronig (ESR) newydd yn gynnar ac yn gweithio gyda Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a thîm y rhaglen genedlaethol.

Mae cymryd y rôl hon yn rhoi'r cyfle inni lunio dyluniad a datblygiad y system yn y dyfodol, tra hefyd yn cael mynediad at gymorth ychwanegol na fydd ar gael i sefydliadau sy'n ymuno'n ddiweddarach. Ar hyn o bryd

mae'r rhaglen yn y cyfnod parodrwydd sylfaenol, a fydd yn rhedeg tan Wanwyn a Haf 2026. Bydd prosiect cyfan y GIG yn cael ei gyflwyno'n raddol dros tua 4 blynedd, ac fel mabwysiadwr cynnar, byddwn yn symud yn gynharach yn y cylch hwn, yn amodol ar barodrwydd a chynllunio cenedlaethol.

Bydd y gwaith hwn yn gosod Llais mewn sefyllfa dda i elwa o system gweithlu mwy integredig dros amser, gan wella ansawdd data, lleihau dyblygu a galluogi prosesau mwy effeithlon a chynllunio gweithlu gwell. Fel rhan o hyn, byddwn yn derbyn cefnogaeth bwrpasol ac rydym wrthi'n asesu'r manylion, sy'n debygol o gynnwys rheoli prosiectau, arbenigedd data a digidol arbenigol, ac adnoddau ymarferol ychwanegol i weithio ochr yn ochr â'n timau i gyflawni elfennau allweddol y newid.